



# EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success



menter  
a busnes

## Gwella iechyd y pwrs/cadair yn eich buches gyda phroffion deinamig

Rhwng Gorffennaf 2020 a Rhagfyr 2021, bu pedwar ffermwr llaeth yn Sir Gaerfyrddin gyda buches o 260 o wartheg ar gyfartaledd yn gweithio gyda'r milfeddyg Dr Sotirios Karvountzis o Mendip Vets i weld sut all cynnal proffion deinamig wella iechyd y pwrs/cadair yn eu buchesi.


Roedd Dr Karvountzis yn cynnal proffion deinamig bob deufis, lle'r oedd yn edrych am broblemau a all niweidio'r fuwch cyn ac yn ystod godro ond na all unrhyw fath o brawf parlwr godro statig arall eu canfod. Pan fydd y fuwch/pwrs dan straen oherwydd godro, bydd unrhyw broblemau cudd sy'n bodoli lawer yn fwy tebygol i ymddangos. Ar hyn o bryd, dim ond 5% o ffermydd llaeth sy'n defnyddio proffion deinamig.

### Esiamplau o beth sy'n cael ei fonitro ym mhroffion deinamig:


- Paratoi'r pwrs/cadair er mwyn sicrhau llif llaeth da
- Llif llaeth deuweddd
- Gor-odro
- Llif i ffwrdd o'r fuwch
- Ffit y leinin
- Leinin yn llithro
- Sut mae'r offer llaeth yn pylsadu

### Gellir hefyd archwilio'r canlynol ar yr un pryd â phroffion dynamig:

- Cyfrifiad celloedd somatig yn y tanc llaeth
- Bactoscan y tanc llaeth
- Nifer achosion mastitis clinigol
- Defnyddio triniaethau gwrthfotig ar gyfer mastitis
- Sgoriau'r tethi




## Awgrym mai gor-odro yw un o'r ffactorau mwyaf sy'n effeithio ar iechyd y pwrs/gadair yn y fuches



Gor-odro yw un o'r prif achosion o niwed i flaen y deth, sydd yn ei dro yn un o rwystrau amddiffynnol niferus y pwrs/cadair rhag heintiadau tethol. Mae'r graff yn dangos bod dros 60% o'r gwartheg yn cael eu gor-odro ar y pedair fferm. Mae'r llinell oren ar 15% yn cynrychioli safon y diwydiant o ran lefel foddhaol o or-odro, ac mae'r llinell goch ar 20% yn dangos lle mae angen gweithredu i leihau gor-odro. Mae'r saethau gwyrdd yn dangos pryd y gweithredir ar argymhellion y profion deinamig.

Roedd y ffermwyr wedi gor-odro oherwydd roedd yr offer awtomatig i dynnu'r clwstwr oddi ar y tethi (ACR)

wedi'i osod ar lif llaeth a oedd yn rhy araf (e.e. 200ml / mun), wedi'i osod i dynnu'r unedau llaeth ar lif llaeth rhy isel (e.e. 200ml y funud), neu pan fo'r oedi cyn tynnu'r unedau llaeth oddi ar y pwrs/cadair a thorri'r gwactod oddi ar y leinins llaeth wedi'i osod yn rhy uchel (e.e. dros 10 eiliad), sy'n golygu bod yr uned yn godro ar wactod llawn gyda llif llaeth isel neu ddim llif llaeth, sy'n achosi niwed i'r tethi a'r pwrs/cadair. Ar ôl i'r cyfnod o or-odro gael ei adnabod, roedd y ffermwyr yn gallu gwneud newidiadau ar eu ffermydd i gywiro hyn, ac o ganlyniad, gwnaeth gor-odro leihau gyda **21%** ar gyfartaledd ar draws y pedair fferm.



Roedd y cyfrifiadau cyfartalog o gelloedd somatig yn y tanc llaeth (BTSCC) wedi lleihau **3.86 x1,000/ml** gyda phob ymyriad a gafodd ei wneud yn dilyn profion deinamig. Er nad oedd archwilio pob elfen sy'n cyfrannu at wella cyfrifiadau BTSCC o fewn cwmplas y prosiect, mae'r dystiolaeth gadarn a gafodd ei chanfod yma yn cyd-fynd â damcaniaeth yr astudiaeth, sy'n nodi y bydd gwelliannau mewn cyfrifiadau BTSCC yn deillio o wella canlyniadau sgoriau'r tethi.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect EIP hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: [llyw.cymru/cyswlltffermio](http://llyw.cymru/cyswlltffermio)